## What does it mean for me?

**It's easier.** Your prescription no longer needs to be collected from the GP surgery and taken to your pharmacy. It will be sent electronically.

**It saves time.** If you have a phone or video appointment with your GP or other staff, you won't have to go to the surgery just to pick up the prescription. Your pharmacy will still need a little time to get your items ready, just as they do now.

**It is safe and secure.** Your prescription can't get lost, as we can always see on our system where it is.

- Electronic prescriptions can be used by most patients.
- Electronic prescriptions are replacing most paper prescriptions.
- Reducing our use of paper helps the environment.

## What do I need to do?

Speak to your pharmacy or GP surgery and tell staff that you want to use electronic prescriptions.

They will be able to arrange this for you. You don't need a computer, smartphone or laptop.

Staff can tell you how to order your prescription. The only change is that, in most cases, you won't get the green prescription form from your GP practice.

**Find out more**
**dhcw.nhs.wales/digital-medicines**

We are developing an NHS Wales App, which will include features such as prescription ordering and choosing a pharmacy. Download the App or go to app.nhs.wales

This leaflet is available in other languages. Please email: Digital.Medicines@wales.nhs.uk

Moddion Digidol
Digital Medicines
IGDC • DHCW

# Mae'r **Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig** wedi cyrraedd



**Gwasanaeth GIG diogel, rhad ac am ddim.**

Yn lle argraffu a llofnodi presgripsiynau papur, bydd staff yn eich meddygfa yn eu hanfon yn syth i'r fferyllfa o'ch dewis.



## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

**Mae'n haws.** Bellach, nid oes angen i'ch presgripsiwn gael ei gasglu o'r feddygfa a'i gludo i'ch fferyllfa. Bydd yn cael ei anfon yn electronig.

**Mae'n arbed amser.** Os oes gennych apwyntiad ffôn neu fideo gyda'ch meddyg teulu neu staff eraill, ni fydd yn rhaid i chi fynd i'r feddygfa yn unswydd i godi'r presgripsiwn. Bydd angen ychydig o amser ar eich fferyllfa o hyd i baratoi eich eitemau, yn union fel nawr.

**Mae'n ddiogel.** Ni all eich presgripsiwn fynd ar goll oherwydd gallwn bob amser weld lle y mae ar ein system.

- Gall y rhan fwyaf o gleifion ddefnyddio presgripsiynau electronig.
- Mae presgripsiynau electronig yn cymryd lle'r rhan fwyaf o bresgripsiynau papur.
- Mae lleihau ein defnydd o bapur yn helpu'r amgylchedd.

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Siaradwch â'ch fferyllfa neu feddygfa a dywedwch wrth staff eich bod am ddefnyddio presgripsiynau electronig.

Byddan nhw'n gallu trefnu hyn i chi. Nid oes angen cyfrifiadur, ffôn clyfar na gliniadur arnoch chi.

Gall staff ddweud wrthych sut i archebu eich presgripsiwn. Yr unig newid yw na fyddwch, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael y ffurflen bresgripsiwn werdd gan eich practis meddyg teulu.

**Dysgu rhagor**
**igdc.gig.cymru/moddion-digidol**

Rydym yn datblygu Ap GIG Cymru, a fydd yn cynnwys nodweddion fel archebu presgripsiwn a dewis fferyllfa. Lawrlwythwch yr ap neu ewch i ap.gig.cymru.

Mae'r daflen hon ar gael mewn ieithoedd eraill. Anfonwch e-bost at: Digital.Medicines@wales.nhs.uk

Moddion Digidol
Digital Medicines
IGDC • DHCW

# The **Electronic Prescription Service** is here



**A free, secure NHS service.**

Instead of printing and signing paper prescriptions, staff at your GP practice will send them electronically directly to the pharmacy you choose.



GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales